Cofnodion Cyfarfod Grŵp Marchnata
Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth
Gorffennaf 4ydd, 2017

1	Croesawu a chyflwyno pawb	Yn bresenol: Marged Rhys (MIC) Steffan Rees (Cered) Nia Thomas (Môn) Rhian Davies (Fflint a Wrecsam) Bethan Jones (Caerffili) Ruth Williams (Dinbych) Eleri Griffiths (Abertawe) Gwawr Williams (MGSG) Ymddiheuriadau: Llio Angharad (Llywodraeth Cymru)	
2	2.1 Trafod disgwyliadau aelodau'r grŵp 2.2 Trafod cylch gorchwyl y grŵp 2.3 Trafod anghenion hyfforddi	– Pawb eisiau bod yn rhan o'r grŵp i sicrhau blaengynllunio ymgyrchoedd Cymraeg Llywodraeth Cymru – Pawb eisiau datblygu sgiliau yn y maes a sicrhau eu bod yn gallu gwneud y gwerth mwyaf o'u hamser – Pawb yn cydnabod bod angen i ni gynllunio ymgyrchoedd cenedlaethol effeithiol sy'n tynnu sylw at y Mentrau – Angen cael Do's & Don't's ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a mwy o ganllawiau ar gynnwys marchnata a chyfathrebu wrth gynllunio digwyddiad	**Marged i rannu rhain gyda'r grŵp**
3	Rhannu arferion Marchnata	Cymysgedd o arferion gan y grŵp ond pawb yn gweld pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd y gynulleidfa (Facebook yn enwedig). Trafodwyd bwysigrwydd mathau gwahanol o dudalennau Facebook – defnyddiol cael proffil 'person gwaith' yn ogystal a'r dudalen menter fel bod modd cysylltu gyda grwpiau gwahanol e.e. 'Eleri Menter Abertawe' Does gan neb ddigon o gapasiti i dreulio ar farchnata digwyddiadau heb son am farchnata'u Mentrau yn gyffredinol. Angen meddwl am gynllun o rhyw fath i helpu i ganolbwyntio ar hyn.	**Marged i greu rhyw fath o gynllun.**

Mentrau Iaith Cymru

MENTRAU IAITH

Cofnodion Cyfarfod Grŵp Marchnata
Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth
Gorffennaf 4ydd, 2017

4	Llyfryn Gwyliau – sut i symud ymlaen	Trafodwyd y llyfryn gwyliau, pawb yn ei weld fel adnodd da ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol e.e. Eisteddfod yr Urdd. Syniadau am symud ymlaen: – Creu rhai'n rhanbarthol? Efallai bydd rhain yn fwy defnyddiol. – Arfer dda: pamffled Iaith ar Daith Menter Fflint a Wrecsam yn ffordd wych o arddangos digwyddiadau Cymraeg yn sirol. – Canolbwyntio ar bynciau gwahanol e.e. llyfryn chwaraeon, llyfryn technoleg... dangos y maesydd mae'r Mentrau yn gweithio ynddynt. – Cwestiynnu pwrpas rhain ar wahan i ddangos gwaith y rhwydwaith i'r ariannwyr. – Syniad da creu fersiwn digidol ar issuu.	**I drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.**
5	5.1 Diweddariad gan Marchnata Cymraeg – Llio Angharad 5.2 Diweddariad gan y mudiadau eraill	5.1 Marged heb dderbyn diweddariad gan Llio. Pawb yn bryderus nad oes rhybudd yn cael ei roi i'r Mentrau am ymgyrchoedd Cymraeg er bod disgwyl iddynt gefnogi. Yr nwyddau weithiau yn cyrraedd ar ol y digwyddiad (e.e. posteri Cmon Cymru, dim ond 6 plecdrum yn cyrraedd ar gyfer Dydd Miwsig Cymru. Pawb yn cytuno taw dyna pam mae'n bwysig i gynnal y cyfarfodydd yma, i dderbyn sicrwydd cyn i'r mentrau drefnu digwyddiadau i gyd-fynd gyda'r ymgyrchoedd. 5.2 Marged wedi derbyn digweddariad ebost/ffon gan: – **Urdd:** Medi/Hydref – Aelodaeth 2017/2018, Ymgyrch Nadolig o amgylch nwyddau'r Urdd, Ionawr /Chwefror – Cyrsiau Haf y Gwersylloedd, Chwefror i Ebrill – Eisteddfod 2018. – **Meithrin:** Hydref – 'Rhywbeth neis neis i de' (diolchgarwch), Ebrill – parti o ryw fath (pyjamas efallai), Mehefin 11-29 – Taith Gwyl Dewin a Doti. – **S4C:** Gorffennaf – Taith BenDant (hyrwyddo ap Byd Cyw), Medi – taith Stwnsh, Hydref – taith ysgolion uwchradd posib, Tachwedd/Rhagfyr – Taith Nadolig Cyw, Ionawr – rhan o Wyl Cymryd Rhan, Llandudno. Cyw yn 10 oed yn 2018 felly siwr bydd dathliadau o rhyw fath hefyd. – **Dysgu Cymraeg:** Wedi anfon pecyn cyfryngau ymgyrch 'Rhesymau dros ddysgu Cymraeg', sioe deithiol a hysbysebion dros Gymru fis Awst a Medi yn hyrwyddo cyrsiau. Argraffiadau: does dim pwyslais ar ddefnydd pobl ifanc (15+) o'r Gymraeg yma. Efallai bod angen edrych ar ffyrdd i farchnata'r Gymraeg i'r gynulleidfa yma trwy'r Mentrau. Dyma'r rhai fydd yn	**Marged i drefnu cael rhywun o BBC Radio Cymru yn rhan o'r Grŵp hefyd.**

Mentrau Iaith Cymru

MENTRAU IAITH

Cofnodion Cyfarfod Grŵp Marchnata
Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth
Gorffennaf 4ydd, 2017

		gwneud y penderfyniad o siarad Cymraeg yn eu cam nesaf o fywyd wrth adael ysgol, mynd i goleg, mynd i'r 6ed ayyb.	
6	Blaengynllunio a rhannu syniadau am gefnogi ymgyrchoedd	Yn dilyn yr argraffiadau uchod.... trafod ymgyrchoedd cenedlaethol ar gyfer y rhwydwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod: – Ymgyrch Y Bel wedi gweithio'n dda, wedi ei drefnu'n dda gydag effaith dda ar blant a phobl ifanc gan glymu'r iaith gyda pwnc cyfoes, perthnasol. – Eleri: cynnig syniad o greu 'Cymuned Flogio Cymraeg', dangos bod gan y Gymraeg le yn y byd flogio hefyd – Mentrau i arwain y gad. – Pawb yn hoffi'r syniad o gael pobl sy'n flogio yn Gymraeg yn barod yn rhan o ymgyrch e.e. Llio Angharad 'Ffasiwn Mewn Munud', Cai Morgan '24 awr yn...' a chriw Hansh (Sianel 5 gynt) Bydd angen meddwl am sut i gefnogi Diwrnod Shwmae Su'mae. Dydd Miwsig Cymru, Cmon Cymru, Cymraeg 'Dolig ayyb.... aros am fwy o wybodaeth gan LLC cyn gallu symud ymlaen i gynllunio rhain. Angen cadw dyddiadau fel 'wythnos gwirfoddoli', 'wythnos sgiliau' ayyb mewn cof wrth drefnu ymgyrchoedd ar gyfer y flwyddyn.	**Marged i siarad efo mudiad Dathlu'r Gymraeg am hyn.** **Rhain i fod ar agenda'r cyfarfod nesaf.**
7	Torri am ginio		
8	Fideos	Pawb yn hapus bod y fideo 'cyffredinol' cyntaf wedi ei greu. Esboniad gan Marged bod 4 fideo arall i'w wneud felly angen symud ymlaen i drafod cynnwys y rhain: – Yn lle canolbwyntio ar bersonoli pob fideo (un cymeriad), yna cael y fideos i gyfleu neges wahanol e.e. 1 = gwirfoddoli, 2 = cymdeithasu, 3 = busnesau ayyb (4 = teuluoedd efallai??) – Trafodwyd y byddai'n ddefnyddiol cael un o'r fideos fel Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer y Mentrau fel bod pob menter yn gallu dangos yr un fideo yn eu sesiynnau.	

		– Syniadau am fideo gwirfoddoli: rhywun yn edrych trwy CVs ond yn gweld 'gwirfoddoli i Fenter Iaith' ar un person ifanc, person hyn yn gweld y Gymraeg yn dirywio ac eisiau helpu, rhywun yn dysgu Cymraeg ac eisiau gwella – felly canolbwyntio ar 2 neu 3 person mewn sefyllfaoedd gwahanol o fywyd fyddai eisiau gwirfoddoli... – Yr un peth ar gyfer y fideos eraill... defnyddio'r cymeriadau sy'n ymddangos yn y fideo cyntaf i ymddangos eto yn y rhai eraill. Fideo 'cymdeithasu'... esbonio 'er mwyn i'r Gymraeg ffynnu mae angen ei defnyddio'n gymdeithasol tu allan i'r ysgol a'r gweithle, dangos y mathau o bethau mae'r mentrau yn eu trefnu.	**Marged i ddrafftio sgript posib ar gyfer y fideo gwirfoddoli a'i rannu gyda'r grŵp.**
	Dyddiad cyfarfod nesaf	**Medi**	**Marged i rannu doodle poll yn nes at yr amser.**